# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 03.04.13 AM 7.15 YR HWYR YN FESTRI CAPEL Y WAUN, WAUNFAWR.

**Presennol –** Cynghorwyr

Bryn Jones (Cadeirydd)
Edgar Owen
Llio Gwyn Jones
Cadi Jones
Sali Burns
Terry Parry
Eurwyn Griffith
Eurig Wyn
Shoned Griffith (Clerc)

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2 Ymddiheuriadau -** Cyng GOW, Cyng DJ

**3 Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion 18.02.13**

Y Cyng. SB yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng. EO yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 18.02.2013**

Materion Caeathro – Llwybr Llety i Ysbyty – Dal i aros caniatad un tirfeddiannwr i osod y gamfa ar ei dir.

Fainc Caeathro – Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am ei chynnal a'i chadw, Cyng LLGJ i ofyn i Eryl ones nd bris ac adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf.

Cais Cynllunio – heb dderbyn ymateb gan y Cyngor, nodwyd nad oedd y cais wedi bod yn y Pwyllgor Cynllunio eto. Angen cysylltu a Chyngor Gwynedd eto i nodi nad oes troedffordd at y safle bws, efaillai y byddai'n syniad rhoid trefn blaenoriaethu traffic ar y ffordd er mwyn gwneud lle i gael troedffordd ac hefyd byddai hyn yn arafu traffic drwy'r pentref.

Materion Waunfawr – Llwybr Pant Gwyn i ffordd yr ysgol – wedi derbyn llythyr gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd gwaith yn cael ei wneud i'r llwybr flwyddyn ariannol nesaf.

**6. Seddi Gwag**

Nodwyd fod un sedd wag dal ar y Cyngor Cymuned.

**7. Gerddi Bach**

Cyng TP wedi cyfarfod y Swyddog Adfywio bro ac wedi derbyn dyfynbris gan Bensaer – Wakemans i edrych ar y safle. Mae ffynhonau gwahanol i ofyn am grantiau mewn gwahanol bwynt yn ystod y gwaith. Angen copi o les ar gyfer y Cyngor Cymuned i'w gymeradwyo er mwyn symud ymlaen. Angen cyfarfod o'r grwp eto yn fuan i drafod ymhellach.

**8. Adroddiadau**

**a. Lloches Bws** - Dim i'w adrodd
.

**b. Y Fynwent –** Dim i'w adrodd

**c. Llwybrau Cyhoeddus –** Dim i'w adrodd.

**9. Materion Cynllunio**

**a. Ceisiadau newydd**

| **Dyddiad Cofrestru** | **Bwriad** | **Lleoliad** | **Rhif Cais** | **Statws y Cais** |
|---|---|---|---|---|
| 25/03/2013 | Estyniad | Ty'n yr Onnen Waunfawr | C13/0324/26/LL | Dim gwrthwynebiad |

**b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd - Dim**

**10. Gohebiaeth**

Cyngor Gwynedd – Groeslon Waunfawr – angen cysylltu yn ol yn gofyn os ydynt yn ymwybodol o'r achos diweddar ble bu rhaid cael yr heddlu yno.
Cyngor Gwynedd – Cynnal a chadw hawliau tramwy Cyhoeddus gan Gynghorau Tref a Chymuned
Unllais – Aelodaeth Un Llais Cymru 13/14 – cytuno i ymaelodi eto eleni
Cyngor Gwynedd – Gorchmynion Rheoli Cwn Cyngor Gwynedd
Cyngor Gwynedd – Polisi Gwynedd – Graeanu Iard ysgol
Cyngor Gwynedd – caead wedi suddo, Clyd y Coed Waunfawr
A4085 rhwng Caeathro a Chaernarfon
Cyngor Gwynedd – Hen ffordd Caeathro
Cyngor Gwynedd – Bin ysbwriel rhwng Ael y Bryn a Tref Eilian
John Roberts, Archwilydd Mewnol – archwilio cyfrifon 2012/13
Cyngor Gwynedd – Trin Llwybrau Cyhoeddus
Cylch Meithrin Waunfawr – llythyr diolch
Pritchard Jones Lane – Toiledau yn Waunfawr
Cyngor Iechyd Cymuned – Llythyr i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
UHY – Ffurflen Flynyddol ar gyfer flwyddyn ddaeth i ben 31/03/12

**11. Mantolen**

Cynnigwyd fod y mantolen yn gywir gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng TP.

Cadarnhawyd fod Asesiad Risc ac Adolygiad o Reolau Mewnol y Cyngor yn gywir am y flwyddyn a derbyniwyd.

**12. Materion Ariannol**

**12.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Chwefror | £260.00 |
| Eglwys y Waun | £10.00 |
| Cyflog Clerc Mawrth | £260.00 |

**12.2 Arian a dderbyniwyd**

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd – Ffi torri llwybrau | £710.00 |

**12.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Ebrill | £260.00 |
| B Owens | £36.00 |
| T Brown | £36.00 |
| Unllais | £178.00 |
| Eglwys y Waun | £10.00 |
| J R Robers | £60.00 |

| | |
|---|---|
| G R Services | £415.00 |

**13. Grantiau / Rhoddion**

| | |
|---|---|
| Ambiwlans Awyr Cymru | £100.00 |
| Llinnell Gymorth | £50.00 |
| Capel Caeathro | £50.00 |
| Theatr Bara Caws | £150.00 |
| Eisteddfod Genedlaethol | £50.00 |
| Genod Gwyrfai | £50.00 |
| Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro | £250.00 |
| Rhwydwaith Gymunedol Gwyrfai | £200.00 |
| Urdd Gobaith Cymru | £50.00 |
| Cynllun Efe | £100.00 |

**14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

15 Mai, 2013 yng Nghapel Caeathro. Penderfynwyd cynnal bob cyfarfod ar nos fercher am y flwyddyn sydd i ddod gan fod pob aelod yn gallu bod yn bresennol.

**13. Materion Aelodau.**

**Y Cyng DJ (neges)** – wedi derbyn cais am finiau greanu ar gyfer y ffordd lawr at y Bont Bren.
**Y Cyng LLGJ –**Troedffordd rhwng Caeathro a Chaernarfon
**Y Cyng CJ** – Dim
**Y Cyng SB** –Wedi sortio yr hysbysfwrdd, os oes gan rhywun rhywbeth i'w roi fyny cysylltu a Sali.
**Y Cyng EO** – Tyllau yn y ffordd rhwng Waunfawr a Chaeathro
**Y Cyng EG** – Dim
**Y Cyng EW** – Angen tarmacio o flaen y Ganolfan- mynegwyd ein bod eisoes wedi anfon at Gyngor Gwynedd yn dilyn ein cyfarfod diwethaf.
Golau Stryd Stad Ty Hen a Nant y Mynydd – wedi ei drafod mewn cyfarfod blaenorol ac wedi penderfynu fod y Cyngor Cymuned yn fodlon ariannu, felly ni cheir eu trafod eto am 6 mis. Gofyn i Gyngor Gwynedd oes ganddynt gynsail golau stryd – pa mor aml ar hyd y ffordd.
**Y Cyng TP –** Ffens bach fetel o flaen y Ganolfan angen ei atgyweirio. Darn gwyrdd o flaen y Ganolfan angen ei dacluso – plannu blodau?
**Y Cyng BJ** - Dim